



Prosiect Cwmpasu Codi Arian

i

Gyngor Celfyddydau Cymru

Gorffennaf – Tachwedd 2017

Emma Goad – Cyfarwyddwr

Blue Canary Fundraising

07854 910982

emma@bluecanary.org.uk

Cyd-destun

Mae Emma Goad o Blue Canary Fundraising wedi cael ei chomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal ymgynghoriad ac adolygiad cwmpasu o heriau (a llwyddiannau) sefydliadau celfyddydol ar draws Cymru, ac ar draws ffurfiau celf, gyda gwaith i sicrhau ffrydiau incwm amrywiol. Bydd yr adroddiad ar y gwaith yn disgrifio'r broblem gan y bydd yn dangos y dirwedd bresennol yn y gwaith mae sefydliadau'n ei wneud i sicrhau incwm amrywiol, ac yn cynnig argymhellion ar gyfer ymyriadau posibl y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru eu cynnig i roi rhagor o gymorth i'r sector wrth iddynt geisio dod yn fwy cynaliadwy a gwydn yn yr hinsawdd bresennol. Mae'r prosiect hwn yn bendant yn rhan o daith Cyngor Celfyddydau Cymru i ddeall cymhlethdodau codi arian i'r celfyddydau yn y farchnad heddiw, o sefydliadau portffolio refeniw i gwmnïau bach sy'n cael cyllid prosiect.

Yn ystod y prosiect cymharol gul hwn mae Emma wedi ymgynghori â sefydliadau celfyddydol o wahanol feintiau ac mewn gwahanol leoedd ar draws Cymru, ymgynghorwyr annibynnol sy'n gweithio ym meysydd codi arian a modelau gweithredol ar draws y Deyrnas Unedig, ac ymddiriedolaethau rhoi grantiau yng Nghymru ac yn Llundain. Gallai'r prosiect fod yn sylweddol fwy, ond mae'n darlunio'r prif themâu sy'n effeithio ar lawer o sefydliadau. Yn ddiâu bydd problemau eraill sy'n bwysig i gwmnïau unigol, ond trwy grwpio problemau'n themâu, bydd yr adroddiad yn cynnwys y rhan fwyaf o'r problemau o ran codi arian, ar y cyd ag ymyriadau y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru eu cyflawni er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Gwynwch

Wrth gwrs mae'r prosiect cwmpasu hwn yn amserol iawn gan ei fod yn cyd-fynd â Rhaglen Wytchwch Cyngor Celfyddydau Cymru. Un o brif elfennau'r Rhaglen Wytchwch yw ei bod yn caniatáu i sefydliadau ddefnyddio dull pwrpasol i ddatblygu eu sefydliad. Nid yw'n cael ei harwain gan agenda Cyngor Celfyddydau Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadau mewn ffordd sydd wedi'i theilwra. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae 54 o sefydliadau portffolio yn rhan o'r Rhaglen Wytchwch.

Mae'r rhaglen yn profi (ar y cyfan) bod galluogi sefydliadau i lunio eu hagenda datblygu eu hunain, gyda chymorth oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, yn helpu i newid diwylliant y berthynas rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a sefydliadau.

Ond – beth am weddill y byd? Mae'r prosiect cwmpasu hwn yn canolbwyntio ar y cymorth mae ei angen i sefydliadau refeniw ac i gwmnïau sy'n cael cyllid prosiect, gyda chapasiti gweddol fach ar gael iddynt. Bydd yr adroddiad yn nodi rhai o'r themâu cyffredin ac yn

awgrymu ymyriadau sy'n ehangu dull Cyngor Celfyddydau Cymru o weithio gyda sefydliadau yn unigol, gyda ffocws ar godi arian.

Cyflwyniad

Nod yr adroddiad cwmpasu hwn yw mynd y tu hwnt i'r pethau amlwg, felly mae angen cymryd ychydig o bethau'n ganiataol er mwyn osgoi ailadrodd diddiwedd. Y ddwy broblem fwyaf cyffredin i sefydliadau wrth ddatblygu ffrydiau incwm a sicrhau rhai amrywiol yw diffyg capasiti ac adnoddau. Beth bynnag fo eu graddfa a'u maint, mae sefydliadau'n cael trafferth oherwydd diffyg staff ac amser, ac mae hyn yn arwain at beidio ag ymroi'n llawn i'r angen i ddatblygu gweithgarwch codi arian. Gwyddom fod sefydliadau'n cael trafferth gyda chapasiti ym mhob rhan o'u gwaith cynhyrchu; nid yw codi arian ar ei ben ei hun yn hyn o beth. Felly at ddibenion y papur hwn byddwn yn ceisio mynd y tu hwnt i hyn, ond ni chaiff capasiti ei anwybyddu'n llwyr.

Rheswm arall dros gymryd y problemau hyn yn ganiataol yw ei bod yn bwysig peidio â dibynnu ar yr ateb hawsaf, sef 'rhowch fwy o arian inni am fwy o staff a gallwn godi arian'. Mae llawer o themâu hanfodol, sylfaenol sy'n atal sefydliadau rhag sicrhau ffrydiau incwm amrywiol. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed gydag 'ateb rhwydd' adnoddau ychwanegol, ni fyddai gwaith codi arian yn cael ei gyflawni mewn ffordd strategol, gynaliadwy, ystyrlon er mwyn galluogi gwytnwch.

Themâu

Mae'n amhosibl cynnwys yr holl problemau mae pob sefydliad yn eu cael wrth godi arian, ond gobeithio bod y prif themâu isod yn cynnwys y rhan fwyaf ohonynt:

- **Nid yw sefydliadau'n barod i godi arian**

Mae hon yn broblem gyffredin lle mae sefydliadau, ers blynyddoedd lawer, wedi gwneud gwaith ysbeidiol i godi arian gyda chyfradd llwyddiant gyfyngedig. Yn y farchnad gystadleuol sydd ohoni am gyllid oddi wrth y sector preifat, mae'n bwysig i sefydliadau, beth bynnag fo eu maint neu eu graddfa, ddefnyddio dull strategol o godi arian, sydd wedi'i wreiddio yn y Cynllun Busnes a'r gwerthoedd, ac sy'n rhan o gynllun creu incwm ehangach er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, gwytnwch a thwf.

Mae cysylltiad cryf rhwng y broblem hon a'r diffyg capasiti, ond hefyd â'r diffyg gwybodaeth a phrofiad sydd gan y staff presennol, ynghyd â disgwyliadau Byrddau ac Ymddiriedolwyr, sy'n awyddus i weld cynnydd yn gyflym. Fwyfwy mae Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'n ceisio cynorthwyo prosiectau sydd â chyd-destun,

dyfnder ac ystyr, yn cynnig canlyniadau cryf nid yn unig i fuddiolwyr ond hefyd y ffordd mae'n cyd-fynd â datblygiad y sefydliad a'r ffordd mae'r sector yn cael ei gynorthwyo trwy ddysgu ar y cyd. Fel y dywedodd Carol Mack o Gymdeithas y Sefydliadau Elusennol 'nid yw'n ddigon dangos angen. Mae angen i sefydliadau fynd ymhellach o lawer'.

Ni fu'r angen am ddull strategol clir o godi arian erioed mor bwysig. Yn yr un modd ag y byddai fîm marchnata'n llunio Strategaeth Cyfathrebu, mae angen i godwr arian lunio Strategaeth Codi Arian sy'n nodi taith a chynllun gweithgarwch codi arian. Fel gyda Chynlluniau Busnes, yn aml mae hyn yn codi braw aruthrol ar bobl nad ydynt wedi arfer â'r angen i weithio fel hyn, ond nid oes angen i strategaethau codi arian fod yn gymhleth, ac ni ddylent fod. Bydd strategaeth dda yn nodi'n glir y disgwyliadau o ran gweithgarwch codi arian, gyda ffocws cryf ar beth fydd yn cael ei wneud, gan bwy, erbyn pryd, a sut. Yn cyd-fynd â'r ddogfen 'Cynllun Dull' hwn dylai fod Achos dros Gymorth sy'n nodi'r dystiolaeth o'r angen am brosiectau penodol neu am ddatblygiad sefydliadol craidd, a Rhestr Gobeithion ac ynddi enwau Ymddiriedolaethau a Sefydliadau tebygol a realistig i fynd atynt. Dim ond ar ôl i'r Cynllun Dull a'r Achos dros Gymorth gael eu cwblhau y dylid llunio Rhestr Gobeithion sy'n nodi Ymddiriedolaethau a Sefydliadau priodol i fynd atynt ar sail gwaith ymchwil trylwyr i gysylltu nodau a chanlyniadau disgwylidig prosiect y ceisir cyllid iddo, gyda blaenoriaethau'r sefydliadau cyllido. Ni ddylai sefydliadau BYTH gael eu temtio i weithio'r ffordd arall lle caiff prosiectau eu creu mewn ymateb i'r cyllid sydd ar gael. Y prosiectau ddylai ddod yn gyntaf a dylent ganolbwyntio ar werthoedd y sefydliad sy'n eu creu.

Mae dyddiau 'hwpo' ceisiadau i mewn yn ysbeidiol i'r targedau tebygol wedi hen fynd, ac ni fu hwnnw'n ddull priodol erioed, beth bynnag. Mae angen i sefydliadau fod â'r capasiti a'r gallu i wneud codi arian yn rhan o'u gweithgarwch craidd a sicrhau bod datblygu ffrydiau incwm amrywiol wedi'i wreiddio'n gadarn yng ngwaith y sefydliad.

- **Mae angen i sefydliadau (a Chyngor Celfyddydau Cymru) fod yn fwy creadigol o ran modelau busnes**

Mae sefydliadau wedi mynd yn obsesiynol ynghylch canolbwyntio ar ddiffygion yn hytrach na dathlu'r asedau sydd ganddynt. Mae gan y sector celfyddydol rai o'r sefydliadau mwyaf creadigol. Fodd bynnag, mae fel pe bai'r creadigrwydd yn dod i ben wrth ddrws y stiwdio neu'r ystafell ymarfer ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i'w botensial llawn ym maes cynllunio busnes. Mae'r ymgynghorydd Ellen O'Hara yn

priodoli hyn i agwedd 'wrth risg' sefydliadau a byrddau, a biwrocratiaeth hanesyddol gan y prif gyllidwyr. Ydi Byrddau'n cyfyngu gormod ar y gallu i sicrhau ffrydiau incwm amrywiol rhag ofn colli cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru?

Mae'r broblem hon hefyd yn gysylltiedig â'r ffaith syml nad oes ateb 'yr un peth i bawb'. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru weld sefydliadau â'u hunaniaeth eu hunain. Yn y bôn, mae'n bosibl na fydd dull cyllido sy'n gweithio gydag un sefydliad yn gweithio i un arall – mae creadigrwydd yn dechrau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac wedyn mae gan y Cyngor ran i'w chwarae wrth annog y sector i wneud yr un peth.

Mae gan Grefft yn y Bae fodel busnes diddorol iawn sy'n un cadarnhaol iawn o ran sicrhau ffrydiau incwm amrywiol a pheidio â dibynnu ar un ffrwd incwm ond cymysgedd ohonynt. Fel model busnes, mae cael 50% o'i incwm o werthu darnau celf yn rhan annatod o wneud Crefft yn y Bae yn hyfyw, ac yn sicrhau y gall yr elusen addysgu'r cyhoedd am y celfyddydau gweledol trwy arddangosfeydd a gweithdai gydag ysgolion. Mae'n bosibl y bydd angen i Grefft yn y Bae ddatblygu ei negeseuon er mwyn sicrhau hunaniaeth glir, ond ni ddylai'r ddibyniaeth ar fasnachu, a gwaith datblygu hyn, gael ei ystyried yn beth negyddol. Mae defnyddio masnachu fel ffordd o greu incwm sydd wedyn yn galluogi sefydliadau i ail-fuddsoddi arian mewn gwaith cyfranogiad / allestyn / addysg ac ati yn hanfodol wrth sefydlu a datblygu cymysgedd o ffrydiau incwm amrywiol. Mae canolfan Chapter yn enghraifft arall; roedd y gwaith diweddar i ailddatblygu'r manau cyhoeddus yn yr adeilad yn canolbwyntio, yn bennaf er nad yn llwyr, ar ddatblygu gwaith masnachu Chapter er mwyn buddsoddi arian yn ôl yn y cynnig artistig a diwylliannol i'r cyhoedd.

Mae cwmni'r Frân Wen wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu rhan newydd o'i fodel busnes, sy'n canolbwyntio ar fod yn entrepreneuriaidd wrth greu incwm. Sylweddolodd y cwmni y gallai ei waith ymateb i agendâu eraill gan gynnwys addysg ac iechyd a datblygodd bartneriaethau oedd yn cael eu hysgogi'n llwyr gan weledigaeth ond nad oeddent yn dibynnu'n llwyr ar agenda'r celfyddydau. Erbyn hyn mae'r cwmni mewn sefyllfa lle mae'n chwilio am fwy o gyfleoedd masnachol trwy gomisiynau wrth iddo fanteisio ar ei asedau, ac ar yr un pryd yn aros yn ffyddlon i'w weledigaeth a'i werthoedd.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ran i'w chwarae nid yn unig wrth gynorthwyo sefydliadau'n ariannol, ond hefyd wrth annog sefydliadau i fod yn fwy

entrepreneuraidd yn eu dulliau o ddod yn wydn ac yn gynaliadwy. Ni ellir gwneud hyn ond trwy osgoi 'yr un peth i bawb' ac wrth i sefydliadau deimlo'n rhydd i gymryd risgiau wrth fanteisio ar eu hasedau. Mae'n amlwg bod angen dull sy'n ymateb i agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau, ond un sydd wedyn yn cael ei rannu ag agenda a ddaw o'r sefydliadau unigol, gan ganiatáu rhagor o ryddid o ran creadigrwydd ac o ran y cyfleoedd i greu incwm.

- **Cynllunio prosiectau**

Yn aml tanamcangyfrifir faint o waith mae angen ei wneud ar gynllunio prosiectau cyn gwneud cais am gyllid neu fynd at unigolyn neu fusnes i ofyn iddo fuddsoddi mewn gwaith creadigol. Mae'r gystadleuaeth am arian Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'n cynyddu o hyd ac o'r herwydd mae rhoddwyr grantiau'n canolbwyntio fwyfwy nid yn unig ar rinweddau prosiect artistig, ond yn fwy ar beth yw lle'r prosiect yn y sefydliad ac yn y sector, ynghyd â phwy fydd yn cael budd, beth yw'r angen am y prosiect a beth yw'r canlyniadau – beth fydd yn newid?

Mae Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'n dweud bod diffyg ansawdd da mewn ceisiadau o Gymru, fel sydd mewn rhannau o Loegr. Mae mwy am hyn yn nes ymlaen yn y papur. Un o'r problemau mawr yw bod sefydliadau'n dal i baru'r prosiect â'r cyllidwr yn hytrach nag fel arall – ac mae'n hawdd gweld hyn wrth edrych ar geisiadau sy'n dod i law. Er enghraifft, mae Sefydliad Paul Hamlyn yn enwog am gefnogi cyfranogiad, ond mae sefydliadau'n methu gyda'u ceisiadau oherwydd bod diffyg cynllunio prosiect ynddynt. Yng nghynhadledd ddiweddar yr Arts Trust yn Llundain, dywedodd Moira Sinclair o Sefydliad Paul Hamlyn ei fod yn cael llawer o geisiadau da iawn sy'n methu'r nod o drwch blewyn, nid oherwydd nad ydynt yn ticio'r blychau ond oherwydd mai'r ceisiadau sy'n amlwg yw'r rhai a all roi tystiolaeth wirioneddol o'r angen. Rhoddodd Moira bwyslais mawr ar yr angen i gael eu hysgogi gan ddyfnder ac ansawdd y mynediad i'r cyfranogwyr. Nid nifer y cyfranogwyr yw'r ffactor ysgogol; ansawdd yr ymgysylltu yw'r peth pwysig.

Mae Ushi Bagga, Cyfarwyddwr Grantiau Sefydliad Paul Hamlyn, yn cytuno, gan ddweud bod angen i sefydliadau feddwl yn strategol am y prosiectau maent yn eu cynnig. Mae angen i geisiadau gael eu hysgogi gan y genhadaeth, yn hytrach nag arian. Pam mai'r sefydliad hwnnw yw'r gorau i gynnig y prosiect hwn? Mae angen i'r prosiect y gwneir cais amdano fod wedi'i wreiddio yng ngweledigaeth y sefydliad ac nid cael ei greu dim ond er mwyn cael cyllid posibl.

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio prosiectau, mae angen i sefydliadau nid yn unig gynllunio'r gweithgarwch, ond hefyd nodi pwy fydd yn cael budd o'r gwaith a pham mae angen y gwaith, gyda thystiolaeth glir oddi wrth bartneriaid y prosiect, a beth yw'r canlyniadau o'r prosiect, i'r buddiolwyr, i'r sefydliad ac i'r sector.

- **Sut ddylai sefydliadau sôn am waith wrth fynd at gyllidwyr?**

Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae angen newid yn y ffordd mae sefydliadau celfyddydol yn siarad a sôn am waith gyda rhoddwyr grantiau. Mae Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, eisiau cynorthwyo a buddsoddi mewn prosiectau sy'n dangos canlyniadau cryf ac sydd â thystiolaeth sylweddol o'r angen. Maent eisiau gweld eu harian yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth, nid yn unig yn lleol ond hefyd yn y sefydliad ac ar draws y sector.

Mae angen i sefydliadau fod wedi arfer â sôn am brosiectau yn nhermau canlyniadau ac angen yn hytrach na rhinweddau artistig yn unig. Wrth gwrs, gallai'r canlyniad fod yn canolbwyntio ar ddatblygiad artistig neu arddangos rhagoriaeth, ond mae dyfnder y canlyniad hwn yn bwysig, gan adlewyrchu beth fydd yn newid oherwydd y prosiect.

- **Mae sefydliadau celfyddydol yn gweithio mewn seilo**

Mae sefydliadau celfyddydol ar ei hôl hi o gymharu â'r fenter a'r mentrau a welir o ran creu incwm ar draws y sector elusennol ehangach. Mae angen i sefydliadau celfyddydol gael eu hannog i goleddu'r sector elusennol a bod yn rhan o ohono. Gallwn ddysgu llawer oddi wrth y miloedd o elusennau o bob maint sy'n gwneud gwaith gwych. Mae angen i sefydliadau celfyddydol wella'r negeseuon am werth y celfyddydau, gan gynnwys sut mae'r celfyddydau'n cyfrannu at yr economi, iechyd a lles, addysg, sgiliau cyflogadwyedd ac ati – mae'r ystadegau a'r dystiolaeth yn bodoli, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn.

Ymddengys bod gan sefydliadau celfyddydol argyfwng hunaniaeth; maent yn gweld eu hunain fel darparwyr celfyddydau yn unig ac nid fel rhan o gyfansoddiad ehangach y sector elusennol. Mae cwmnïau celfyddydol yn rhan o'r Trydydd Sector o'u cwmpas. Rydym i gyd yn gweithio er budd y cyhoedd ac mae gan lawer o sefydliadau statws elusennol, ond nid ydynt yn defnyddio hyn i'w potensial llawn. Mae nifer o gyfleoedd sy'n cael eu methu o ran manteisio ar ragor o gymorth gan gynnwys y Sefydliad Codi Arian.

Cydnabyddir mai dim ond yn awr mae toriadau cyni yn taro Cymru, lle mae Lloegr wedi teimlo'r toriadau peth amser yn ôl. Ni all gwella'r cysylltiadau sydd gan sefydliadau celfyddydol yn y Trydydd Sector ond cynnal gallu sefydliadau i achub ar gyfleoedd a fydd yn cynorthwyo â chynaliadwyedd a gwytnwch.

- **Rhan Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru**

Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod mae rhan i gael ei chwarae ar y lefel uchaf trwy gymell rhoi arian i'r celfyddydau gan fusnesau ac unigolion, yn enwedig rhai gwerth net uchel. Nid oes gan Gymru lu o fusnesau ac unigolion gwerth net uchel fel sydd gan Loegr. Yn aml mae sefydliadau'n cystadlu â'i gilydd am yr un arian o nifer fach o gyfleoedd. Mae terfyn uchaf i gyfleoedd yng Nghymru. Er enghraifft, mae Cwmni Opera Cymru'n rhedeg un o'r ymgyrchoedd mwyaf llwyddiannus o ran rhoi gan unigolion, ond mae'n cael trafferth i sicrhau mwy o roddwyr, a'r un peth ym maes busnes hefyd. Os yw Cwmni Opera Cymru'n cael heriau yn y meysydd hyn gyda'r holl asedau sydd ganddo i'w cynnig, yna mae cyfyngiadau gwirioneddol ar sefydliadau llai sy'n cael cyllid prosiect ac sydd heb leoliad sefydlog. Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu statws i helpu i gynnig cymhellion i roi arian – gwobrau cydnabyddiaeth yw'r math mwyaf amlwg. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn ymchwilio i hyn fel rhan o'i waith i gynorthwyo'r sector gyda dyngarwch, yn enwedig ers diwedd Gwobrau Dyngarwch Tywysog Cymru, oedd yn uchel eu parch.

Mae Celfyddydau a Busnes Cymru'n creu seremoni wobrwyo flynyddol i ddathlu partneriaethau rhwng busnesau a sefydliadau celfyddydol. Mae hon yn noson lwyddiannus ond ni all y digwyddiad hwn, ar ei ben ei hun, fynd yn ddigon pell i fod o fudd i'r sector celfyddydol ehangach wrth feithrin partneriaethau. Yn y bôn, mae ymagwedd Celfyddydau a Busnes Cymru yn canolbwyntio ar fyd busnes, sy'n gadael bwlch i sefydliadau celfyddydol y mae arnynt angen cymorth ac 'agor drysau' o ran meithrin perthnasoedd yn y sector busnes.

- **Y berthynas sydd gan y sector gyda Chyngor Celfyddydau Cymru**

Mae darparu cymorth gan y sector cyhoeddus yn hanfodol i sector celfyddydol sy'n gynaliadwy ac yn datblygu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gwneud gwaith angenrheidiol mewn cyfnod heriol wrth gynorthwyo'r sector yn ariannol mewn ymgais i ddatblygu'r sector a sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Fodd bynnag, un peth sydd wedi codi yn aml yn ystod yr ymgyngoriad ar gyfer y prosiect hwn yw'r angen am newid ymddygiad yn y sector, yng Nghyngor Celfyddydau Cymru ac yn arbennig gyda'r berthynas rhwng y ddau. Ers gormod o amser, ac mewn cyfnodau

ariannol gwell, nid yw dibyniaeth y sector ar Gyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn beth iach. A ninnau'n byw mewn cyfnod gwahanol iawn, nid oes angen inni dorri'r cysylltiadau ond yn hytrach eu gwneud yn fwy llyfn, cilyddol ac ymatebol. Mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru alluogi sefydliadau i gymryd y risgiau angenrheidiol hynny sy'n ofynnol i sicrhau ffrydiau incwm gwirioneddol amrywiol, trwy nifer o ymyriadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir – gwella deialog gyda sefydliadau, symud i ffwrdd o ymagwedd 'yr un peth i bawb', dathlu'r amrywiaeth ariannol mae llawer o sefydliadau'n ei choleddu, gwell hyfforddiant ystyrion, cyfeirio, ac o bosibl rhai ymyriadau strategol mwy sylweddol a fydd yn galw am ragor o fuddsoddiad ac ystyriaeth.

Mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru ddeall yr heriau mae sefydliadau yn y sector yn eu hwynebu gyda phob agwedd ar eu gweithrediad - yr agwedd artistig a'r agwedd busnes. Mae diffyg difrifol arbenigedd mewn codi arian yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, ac felly unrhyw ddull strategol gwirioneddol o gynorthwyo sefydliadau i godi cyllid preifat. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n annog sefydliadau, yn gwbl briodol, i sicrhau ffrydiau incwm amrywiol yn y cyfnod heriol hwn gan ei bod yn anochel y bydd cyllid oddi wrth y sector cyhoeddus yn lleihau, ond wedyn nid oes unrhyw gymorth i sefydliadau wneud hyn.

Cyfyngedig yw'r grantiau Datblygu Busnes. Ni ellir gwneud cais am fwy na £5,000 ac nid ydynt yn galluogi sefydliadau i gael unrhyw ymyriadau ystyrion. O safbwynt Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd, nid dyma'r ymyriad mwyaf strategol y gellid ei wneud.

Y ddirnadaeth yw bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru ormod o linellau biwrocratiaeth a'i fod yn anhyblyg yn ei agwedd at sefydliadau. Mae angen mwy o weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau, lle gwelir Cyngor Celfyddydau Cymru'n rhan o'r sector ac nid yn endid ar wahân. Mae'n amlwg bod angen rheoli ymgysylltu, oherwydd rôl Cyngor Celfyddydau Cymru, ond mae datblygu deialog mwy agored yn hanfodol.

Mae rhaglen Cyngor Celfyddydau Lloegr, Catalyst, ynghyd â phenodi Head of Philanthropy 3 blynedd yn ôl, wedi newid yn sylweddol y berthynas sydd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr â'r sector. Dywedodd Clare Titley, sy'n dal y swydd honno, y bu newid naturiol ac angenrheidiol yn y diwylliant yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr; mae'r cyngor hwnnw wedi gwrandao mwy ar y sector ac wedi cyflwyno ymyriadau sy'n ystyrion ac yn ddefnyddiol yn y tymor hir. Mae rhaglen lawn debyg i Catalyst allan o

gyrraedd Cymru oherwydd lefel y buddsoddiad gofynnol, ond mae yna elfennau y gallem ddysgu ohonynt, gan arwain efallai at ymyriadau a fyddai'n cynorthwyo'r sector.

Mae No Fit State Circus, sy'n cael Cyllid Portffolio Cenedlaethol gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, wedi cael budd mawr o raglen Catalyst. Diolch iddi hi mae'r sefydliad wedi cyflogi Rheolwr Datblygu ac yn sgil y llwyddiant hwn wedi cyflogi Cynorthwydd Datblygu erbyn hyn. Dywed Bethan Touhig-Gamble mai un o'r elfennau mwyaf cadarnhaol yn rhaglen Catalyst yw ei bod yn ymateb i anghenion y sefydliad heb orfod llunio cais yn unol ag agenda.

- **Sut mae Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'n gweld Cymru**

Nid oes gan Gymru'r doreth o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau mae llawer o rannau o Loegr yn meddu arnynt. Dim ond llond llaw o Ymddiriedolaethau â phencadlysoedd yng Nghymru sy'n rhoi buddsoddiad a grantiau sylweddol i brosiectau celfyddydol yn rheolaidd. Felly, rydym yn dibynnu'n helaeth ar ymddiriedolaethau'r Deyrnas Unedig ac mae'r gystadleuaeth am yr arian hwn yn cynyddu o hyd.

Yn ystod y prosiect cwmpasu ymgynghorwyd â'r Cyfarwyddwyr Grantiau o 3 o ymddiriedolaethau'r Deyrnas Unedig, sef Sefydliad Esmee Fairbairn, Sefydliad Foyle a Sefydliad Paul Hamlyn. Roedd gan bob un bethau diddorol i'w dweud am ansawdd datblygol ceisiadau o Gymru, ond mae'r ystadegau am nifer y grantiau sy'n dod i sefydliadau celfyddydol Cymru'n adrodd eu hanes eu hunain. Dyma'r darlun yn y flwyddyn ddiwethaf:

Sefydliad Esmee Fairbairn – ariannwyd 14 o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru o gyfanswm o 109 o sefydliadau celfyddydol a gafodd grantiau

Sefydliad Foyle - O holl grantiau'r celfyddydau a dalwyd y llynedd, dim ond 2% a aeth i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru.

Ar draws yr holl gyllid (gan gynnwys ysgolion, dysgu a'r cynllun grantiau bach) 4% o'r holl wariant yn 2016 oedd y grantiau a dalwyd yng Nghymru.

O'r ceisiadau a gafwyd yn 2016, roedd ychydig mwy na 3% o Gymru (ar draws ein holl gynlluniau cyllido).

Sefydliad Paul Hamlyn – Explore & Test (grant o hyd at £60,000) dyfarnwyd 5 grant i Gymru. Grantiau More & Better – o 300 o geisiadau, dim ond 3 a ddyfarnwyd i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru.

Mae'n bosibl bod nifer o resymau dros y diffyg ceisiadau, a'r diffyg grantiau i Gymru yn

sgil hynny, gan gynnwys:

- Diffyg capasiti mewn sefydliadau celfyddydol i ymchwilio a chyflwyno ceisiadau i'r ymddiriedolaethau iawn
- Diffyg gwybodaeth yn y sector am ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau
- Diffyg profiad o ran ysgrifennu ceisiadau am gyllid i ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau
- Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'r Deyrnas Unedig yn peidio â gwneud digon yng Nghymru i hyrwyddo eu hunain (cyfaddefodd pob un y gellid gwneud mwy).

• **Capasiti codi arian yn y sector celfyddydol ar draws Cymru**

Mae diffyg codwyr arian i'r celfyddydau yng Nghymru sydd ar ganol eu gyrfaoedd. Mae rhai o sefydliadau celfyddydol pwysicaf Cymru wedi cael trafferth i recriwtio codwyr arian sydd â gwybodaeth sy'n datblygu ond nad ydynt eto yn barod i wneud cais am swyddi Cyfarwyddwr neu Bennaeth Codi Arian.

Diolch i'r cwrs MA mewn Rheoli'r Celfyddydau yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a rhaglen Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes Cymru, mae gan y de yn arbennig nifer dda o godwyr arian sy'n barod am swyddi Swyddog neu Gynorthwydd, ac ymddengys fod angen am y swyddi hyn gan fod 13 o'r 16 o bobl sydd wedi cyflawni rhaglen Celfyddydau a Busnes Cymru mewn swyddi amser llawn yng Nghymru.

Mae ar Gymru angen mwy o hyfforddiant canol gyrfa er mwyn cynnig llwybrau datblygiad ystyrlon i godwyr arian yng Nghymru.

Ymyriadau posibl dan arweiniad Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhannu gwybodaeth:

- Gwella pwyntiau dysgu i sefydliadau oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru – cyfeirio, cymorth gan gymheiriaid, dwyn sefydliadau ynghyd, rhwydweithio, hyfforddiant
- Annog sefydliadau i sefydlu grwpiau cymheiriaid a rhoi cymorth ariannol iddynt wneud hynny, yn enwedig y sefydliadau hynny a ddylai chwarae rhan arweiniol yn y sector
- Cyngor Celfyddydau Cymru'n helpu i wella perthnasoedd ag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau ar draws Cymru, a'r gallu i fynd atynt

- Cronfa ddata o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau sy'n gysylltiedig â Chyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gyfredol ac yn rhoi cyngor clir ynghylch beth mae ymddiriedolaethau unigol eisiau ei gynorthwyo
- Pecyn cymorth ar-lein wedi'i gysylltu â gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru – â chysylltiad agos â'r pwynt uchod – lle cyntaf i fynd iddo lle mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n amlwg yn cynnig cymorth sylfaenol ond angenrheidiol

Hyfforddiant:

- Cyfleoedd hyfforddi ystyrion yng Nghymru. Mae diffyg cynigion sylweddol o ran hyfforddiant a datblygiad ar gyfer codi arian a chodwyr arian yng Nghymru ar y lefel ganol.
- Mae yna gyrsiau hyfforddiant ar draws y Deyrnas Unedig sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau fel Arts Fundraising ac AMA. Mae'r rhain yn dda ond nid ydynt yn canolbwyntio ar Gymru, felly mae doler goll rhwng yr hyfforddiant presennol ar y lefel uwch ac 'effaith Cymru'.
- Bwrsariaethau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddilyn rhaglenni hyfforddiant preswyl sy'n bodoli eisoes. Rwy'n argymhell National Arts Fundraising School y Management Centre i unrhyw un sy'n ymdrin â chodi arian. A dweud y gwir, gallai aelodau o staff Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd gael budd o'r cwrs 5 diwrnod hwn, a gynhelir dwywaith y flwyddyn ym mis Ebrill a mis Tachwedd.
- Cyfleoedd hyfforddiant ar y lefelau canol ac uwch. Mae angen rhagor o gyfleoedd am lwybrau datblygiad i godwyr arian yng Nghymru. Felly, pan fo swyddi Cyfarwyddwr Codi Arian ar gael, bydd gennym bobl sy'n godwyr arian profiadol, ond yn fwy na hynny sydd â phrofiad o godi arian yng Nghymru, gan eu bod yn wynebu heriau gwahanol i'n cydweithwyr yn Lloegr.
- Hyfforddiant penodol i sefydliadau celfyddydol sydd eisiau mynd at Ymddiriedolaethau a Sefydliadau.

Meithrin capasiti:

- Cymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i sefydliadau ddod â mentor codi arian i mewn i ddatblygu dull strategol o godi arian sy'n bwrpasol ac yn realistig i'r sefydliad penodol hwnnw a'i flaenoriaethau.
- Cymorth i feithrin capasiti – ymyriadau ariannol a mentora
- Cymorth ychwanegol i ddeiliaid grantiau – mae Sefydliad Lloyds TSB yn cynnig cymorth gweithredol ychwanegol i sefydliadau sy'n cael grantiau i helpu â chynaliadwyedd. Nid yn unig mae'n helpu'r sefydliad, mae hefyd yn gwarchod buddsoddiad Sefydliad Lloyds TSB

- Adolygiad o'r capasiti codi arian - fel yr awgrymodd Theatr Na n'Og yn ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant. Fodd bynnag, unwaith y gwyddys yr ateb i fater capasiti, mae angen i'r adolygiad hwn fynd ymhellach i ymyriadau cymorth posibl. Gallai rhai o'r rheiny a grybwyllwyd o'r blaen yn y papur hwn fod yn briodol

Meithrin perthnasoedd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector:

- Cyngor Celfyddydau Cymru'n meithrin perthnasoedd unigol a chyd-ddealltwriaeth ddyfnach gyda'r sefydliadau celfyddydol mae'n eu cyllido. Mae hyn yn digwydd gyda sefydliadau portffolio, ac yn fwy byth trwy'r Rhaglen Wytwnch, ond mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru edrych ar sut y gellir prif-ffrydio'r ymagwedd hon.
- Cyngor Celfyddydau Cymru a sefydliadau celfyddydol yn datblygu cyd-gytundeb sy'n fwy na chytundeb cyllido ond yn hytrach yn ddull o weithio
- Datblygu'r cyfle a'r gallu i sefydliadau celfyddydol deimlo bod ganddynt y grym i ddatblygu eu modelau gweithio eu hunain
- Cyflwyno cysylltiad mwy ystyrion rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a sefydliadau celfyddydol y mae sicrhau ffrydiau incwm amrywiol yn ganolog iddo. Manteisio ar gymorth mwy sylweddol sydd ar gael oddi wrth ffynonellau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru

Llywodraeth Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru yn arwain y sector:

- Cyfleoedd i rwydweithio gydag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau – galluogi cyfarfodydd lefel uchel sy'n cael eu hysgogi gan ganlyniadau, rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfarwyddwyr Grantiau'r Ymddiriedolaethau a Sefydliadau allweddol yng Nghymru a'r tu allan iddi er mwyn creu cyd-ymagwedd strategol.
- Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ran i'w chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r rwydweithiau gyda sefydliadau blaenllaw eraill yn y Trydydd Sector
- Cyd-strategaeth a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo a dathlu gwerth y celfyddydau mewn meysydd eraill i fusnesau (iechyd, addysg, yr economi). Dyma elfen Tîm Cymru – rhoi llwyfan i hyrwyddo diwylliant Cymru yn ogystal â busnesau Cymru.
- Llywodraeth Cymru'n bod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu â busnesau yng Nghymru ac yn rhyngwladol gyda chysylltiadau â Chymru, yn y celfyddydau (dyma rywbeth a godwyd gan y Pwyllgor Diwylliant yn ei ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau)

Casgliad

Dim ond ciplun o dirwedd bresennol codi arian ar draws Cymru yw'r prosiect cwmpasu hwn mewn gwirionedd. Mae angen gwneud llawer mwy o waith er mwyn deall yn iawn y gwahanol broblemau mae pob sefydliad yn delio â hwy, ond mae hwn yn ddechreuad.

O ganlyniad i'r gwaith ymchwil mae nifer o themâu wedi dod i'r amlwg. Roeddid yn disgwyl rhai ohonynt, roedd rhai'n annisgwyl. Soniodd pob un o'r cyfranwyr am gapasiti ac adnoddau, neu yn hytrach diffyg y rhain. Ond soniasant hefyd am y berthynas sydd gan y sector gyda sectorau elusennol eraill, a gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

Daw'r adroddiad hwn ar yr un pryd ag ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, ac ochr yn ochr â'r Rhaglen Wytwnch y mae 54 o sefydliadau'n rhan ohoni ar hyn o bryd. Fel rhywun sydd wedi ymwneud â'r ddau, bydd yn ddiddorol gweld ble bydd y ddau brosiect yn arwain. Roedd yn amlwg bod Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisiau cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa mae sefydliadau ynnddi wrth godi cyllid ychwanegol heblaw cyllid cyhoeddus, ond ar yr un pryd ymddangosai fod ganddo syniad gor-syml, mewn rhai ffyrdd, o sut y dylai ac y gallai codi arian weithio. Er enghraifft, un o'r awgrymiadau oedd i Lywodraeth Cymru ganfod a denu cefnogaeth dyngarwyr posibl, o'r tu allan i Gymru ond sydd â chysylltiadau â Chymru, i'r celfyddydau yn gyfan, yn hytrach na deall yn llawn pam mae pobl yn rhoi arian ac i beth, a sut mae rhoddwyr eisiau teimlo'n rhan o'r prosiectau mae ganddynt ddiddordeb ynnddynt. Unwaith eto, ni fydd y meddylfryd 'yr un peth i bawb' yn gweithio.

Ni fyddem yn edrych ar bob cwmni yswiriant, banc neu gwmni o gyfreithwyr a rhagydybio eu bod i gyd yn gweithio yn yr un ffordd ac y bydd yr un ymyriadau'n helpu i ddatblygu busnes. Ond fe ymddengys fod 'sector y celfyddydau' yn cael ei roi (gan rai) mewn categori cyfyng nad yw o gymorth ym mater dyrys cyllid ychwanegol, nac yn ymagwedd iach at gynaliadwyedd a gwytnwch yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd cydweithio mewn partneriaeth a rhannu capasiti yn gweithio rhwng sefydliadau, ond mae angen i'r sefydliadau hyn fod â gwerthoedd a dulliau gweithio cyffredin sy'n debyg i'w gilydd. Mae partneriaethau'n gweithio orau pan fyddant wedi'u gwreiddio yng ngweledigaethau'r sefydliadau ac nid yn cael eu gorfodi at ei gilydd i gyflawni canlyniad arwynebol nad yw'n cael unrhyw effaith ystyrlon hirhoedlog.

Mae Rhaglen Wytwnch Cyngor Celfyddydau Cymru'n cael ei hystyried yn brofiad cadarnhaol gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ynnddi, ac mae'n ddatganiad clir o fwriad gan Gyngor Celfyddydau Cymru ynghylch y ffordd ymlaen yn nhermau sgwrs rhwng Cyngor

Celfyddydau Cymru a sefydliadau, a'r gallu i wir ddeall cymhlethdodau pob un o'r sefydliadau portffolio. Ni nodwyd eto sut y bydd yr ymagwedd newydd hon yn cael ei phrifffrydio ac yn sicrhau budd i'r sector yn ehangach.

Un peth na chafodd ei grybwyll yn y brif ran o'r papur hwn yw rôl y cwmnïau cenedlaethol wrth ddatblygu gwaith codi arian ar draws Cymru. Mae cyfrifoldeb mawr ar y cwmnïau cenedlaethol i hyrwyddo'r sector ac i rannu profiad a gwybodaeth, ond pan fo pob sefydliad, waeth beth fo ei statws a'i faint, yn cael trafferth i gyflawni ei weithgarwch beunyddiol, hyd yn oed, er mwyn cadw ei ben uwchlaw'r dŵr, ble mae'r cymhelliad i'r cwmnïau sefydledig gymryd yr amser i gefnogi agenda ehangach?

O siarad ag Alison Dunnett o Opera Cenedlaethol Cymru, roedd yn glir bod yna awydd i gefnogi'r sector, ond ychydig iawn o adnoddau ac amser i wneud hynny mewn ffordd ystyrlon. Soniodd Alison hefyd am y terfyn uchaf i gyfleoedd yng Nghymru; nid oes yng Nghymru'r cyfoeth na'r gwaith gwneud penderfyniadau a fyddai'n cynnal y galw sy'n cynyddu o hyd am bartneriaethau corfforaethol gyda'r celfyddydau, a gellir dweud yr un peth am ddyngarwyr unigol hefyd.

Mae angen gwirioneddol daer i sefydliadau celfyddydol gael eu cynorthwyo i sicrhau ffrydiau incwm amrywiol er mwyn galluogi cynaliadwyedd a thwf yn y sector. Fodd bynnag, mae'r terfyn uchaf i gyfleoedd yn peri penbleth yng Nghymru ac mae angen i sefydliadau allu cymryd risgiau ac edrych yn fwy creadigol ar y gwaith o greu incwm.

Y modelau gorau yw'r rheiny sy'n dwyn ynghyd gasgliad o ffrydiau incwm, lle nad yw'r pwysau ar un yn unig ond yn cael ei rannu rhwng pwrs y wlad, incwm preifat o Ymddiriedolaethau, Sefydliadau, corfforaethau ac unigolion, gallu i ennill incwm, manteisio ar yr asedau sydd gan sefydliadau creadigol a mathau eraill o incwm a buddsoddiad, gan gynnwys benthyciadau, nad ydynt yn cael eu hystyried fel y peth arferol yn sector y celfyddydau ar hyn o bryd, ond sy'n cael eu gweld felly fwyfwy gan elusennau eraill yn y trydydd sector.

I gloi, mae llawer y gall Cyngor Celfyddydau Cymru ei wneud i gynorthwyo'r sector i sicrhau ffrydiau incwm amrywiol, yn fwy na dim ond dweud wrthynt fod angen iddynt wneud hynny! Faint mae modd ei gyflawni mewn gwirionedd yw'r cam nesaf, ond mae angen i unrhyw ymyriadau fod yn ystyrlon ac yn fuddiol ar raddfa eang. Rwyf i, yn bersonol, yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weld sut y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n mynd ati i weithredu yn sgil y papur hwn mewn ffordd a fydd o fudd i sefydliadau celfyddydol ar draws Cymru.

Emma Goad

Cyfarwyddwr – Blue Canary Fundraising

Tachwedd 2017

Rhestr cyfranwyr

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r bobl ganlynol a rannodd eu profiadau a'u gwybodaeth yn onest ar gyfer y prosiect hwn:

- Anna Dinnan – ymgynghorydd ar ei liwt ei hun sy'n gweithio ar nifer o brosiectau'r Rhaglen Wytwnch
- Ellen O'Hara – ymgynghorydd ar ei liwt ei hun sy'n gweithio ar nifer o brosiectau'r Rhaglen Wytwnch
- Clare Titley – Head of Philanthropy, Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Alison Dunnett – Pennaeth Datblygiad a Strategaeth Opera Cenedlaethol Cymru
- Simon Burgess – Rheolwr Cyffredinol Crefft yn y Bae
- Richard Tynen – Cyfarwyddwr, Funding Centre
- Sarah Gee – Partner Sefydlu, Indigo Fundraising & Marketing
- Nia Jones – Rheolwr Gweithrediadau Cwmni'r Frân Wen
- Bethan Touhig-Gamble – Cyfarwyddwr Datblygu No Fit State Circus
- Carol Mack – Prif Weithredwr Cymdeithas y Sefydliadau Elusennol
- Ushi Bagga – Rheolwr Grantiau Sefydliad Paul Hamlyn
- Alison Holdom – Rheolwr Grantiau Sefydliad Esmee Fairbairn
- Nicola Philips – Rheolwr Grantiau Sefydliad Foyle
- Rachel Jones – Prif Weithredwr Celfyddydau a Busnes Cymru
- Lisa Matthews – Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Sian Tomos – Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio Cyngor Celfyddydau Cymru